Crynodeb Gweithredol

1. Cyd-destun

Partneriaeth yw Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BEST) o bedwar mudiad: Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru (BVSNW), Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Cymru (MEWN Cymru) ac Ymddiriedolaeth Scarman. Prosiect a ariennir gan Cymunedau'n gyntaf yw BEST, sy'n amcanu i adnabod anghenion cymorth penodol unigolion a chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)[1], mewn perthynas â Strategaeth Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ymgymerwyd â'r ymchwil gan Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN), a fu'n cydweithio gydag Ysgol Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Cymru, Bangor.

2. Nodau

Nodau sylfaenol yr ymchwil oedd:

- Darparu gwybodaeth ansoddol a meintiol am gymunedau BME yng Ngogledd Cymru.
- Darparu gwybodaeth am y strwythurau cymorth penodol sy'n bod ar gyfer cymunedau BME yn yr ardal.
- Sefydlu cysylltiadau o fewn partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf yng ngogledd Cymru, er mwyn canfod pa gymorth a chefnogaeth sydd arnynt eu hangen er mwyn ymgysylltu â chymunedau BME.
- Adnabod natur a photensial y partneriaethau y bydd angen i BEST eu sefydlu er mwyn gweithio'n effeithiol o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng ngogledd Cymru.

3. Methodoleg

Mae ardal yr ymchwil yn cwmpasu chwe sir gogledd Cymru, sef Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir y Fflint, Ynys Môn a Wrecsam.

Cynhaliwyd arolwg o'r llenyddiaeth er mwyn dod o hyd i'r prosiectau ymchwil allweddol ar leiafrifoedd BME yng ngogledd Cymru yn ogystal ag ymchwil perthnasol arall ar gymunedau BME trwy Gymru gyfan. Gwnaed dadansoddiad ar-ddesg o'r data a ddarparwyd yng Nghyfrifiad 2001 er mwyn sefydlu proffil demograffig manwl o'r lleiafrifoedd BMW yn yr ardal. Dadansoddwyd data o'r cyfrifiad am gyfansoddiad, amlder, oed, rhyw, crefydd a statws economaidd-gymdeithasol y lleiafrifoedd. Trwy groesdablu edrychwyd ar oedran a rhyw fesul grŵp ethnig, ac ar ryw a statws economaidd-gymdeithasol fesul grŵp ethnig. Rhai o'r ffynonellau data eraill a

[1] Trwy gydol y ddogfen hon, defnyddir y term 'BME' neu 'Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' i gyfeirio at y cymunedau ethnig gweledol a geir yng ngogledd Cymru, er enghraifft pobl o darddiad Pacistanaidd, Bangladeshi, Tsieineaidd, Affricanaidd, Caribïaidd a Philipinaidd. Defnyddir y term i gyfeirio hefyd at grwpiau nad ydynt yn ;wahanol yn weledol ond sydd hefyd yn dioddef anfanteision oherwydd eu statws lleiafrifol, megis ceiswyr lloches, ffoaduriaid, teithwyr neu sipsiwn neu fewnfudwyr newydd.

ddefnyddiwyd i adnabod y BME yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf oedd cofnodion myfyrwyr, er mwyn canfod y niferoedd yn y prif sefydliadau addysgol, cofnodion gweithwyr cyflogedig y GIG a gwybodaeth am gymunedau o sipsiwn/teithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Dadansoddwyd yr holl ddata ystadegol gan ddefnyddio data canran EXCEL. Ar gyfer mapio poblogaeth a chyfansoddiad BME gogledd Cymru ar lefel wardiau, siroedd a rhanbarthau, defnyddiwyd pecyn GIS (System Wybodaeth Ddaearyddol) i'w plotio fel coroplethau.

Casglwyd y data ansoddol trwy gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol: darparwyr gwasanaeth, asiantaethau BME ac unigolion BME, gan gynnwys unigolion BME a oedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau wyneb yn wyneb. Pan oedd hynny'n amhosibl neu'n anymarferol am ba bynnag reswm, cynhaliwyd y cyfweliad dros y teleffon. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau grŵp ffocws yn ogystal, gyda cheiswyr lloches, myfyrwyr rhyngwladol, aelodau o Shekina a'r Gymdeithas Tsieineaidd.

4. Materion Allweddol yn Codi o'r Ymchwil

4.1 Ymchwil

Mae nifer o brosiectau ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar ogledd Cymru wedi eu cynnal neu'n digwydd ar hyn o bryd. Mae proffil pendant o wahanol anghenion y BME bellach ar gael. Er hynny, mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiadau yn amrywio'n sylweddol, sy'n awgrymu nad yw'r setiau data - ac yn arbennig y systemau monitro a ddefnyddir wedi eu safoni ar draws yr awdurdodau lleol/rhanddeiliaid perthnasol. Sylwir ar lawer o orgyffwrdd rhwng yr adroddiadau, a hwyrach y gellid casglu data'n fwy effeithlon trwy gydgysylltu'r ymdrechion yn well. Pery'r angen am ymchwil yn canolbwyntio ar y lleiafrifoedd BME a chymorth gyda Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Nid oes yr un o'r arolygon cyfredol yng Nghymru yn ymdrin yn systematig ag anghenion TGCh y BME. Mae llawer o'r prosiectau ymchwil wedi'u cyllido'n annigonol ac yn digwydd o fewn fframweithiau amser sy'n rhy fyr i ddarparu data ystyrlon. Dywed rhai unigolion ac asiantaethau BME eu bod yn cael eu hymchwilio yn ormodol. Nid yw canlyniadau'r ymchwil yn cael eu dosbarthu'n eang, na'u rhannu i weithwyr prosiect o fewn gogledd Cymru, nac i'r mwyafrif o'r asiantaethau statudol. Mae BSVNW ac NWREN yn gweithredu i gau'r bwlch hwn yn y trefniadau cyfathrebu trwy drefnu gweithgareddau fel diwrnodau rhannu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr prosiect.

4.2 Y proffil demograffig

Mae'r amrywiaeth o ran grŵp ethnig a statws, a natur wasgaredig y boblogaeth BME trwy'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn cynnig cryn her i ddarparwyr prif-ffrwd. Cymharol ifanc ac economaidd weithgar yw poblogaeth BME gogledd Cymru. Nid oes unrhyw dystiolaeth ystadegol i awgrymu bod nifer y dibynyddion hŷn yn uchel. Fel sy'n wir am y boblogaeth yn gyffredinol mae'r poblogaeth BME yn amlygu llif a chyfnewid o ran mewnfudo ac allfudo, ond y mae craidd y boblogaeth BME yn un hir

sefydledig. Cristnogion yw'r grŵp crefyddol mwyaf ym mhlith y BME, ac yna Moslemiaid. Amcangyfrifir fod 24 o ieithoedd lleiafrifol yn cael eu siarad yn gyffredin yng ngogledd Cymru. Amodol ac ansicr yw'r data sydd ar gael ar weithwyr symudol, sipsiwn/teithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Nid yw'r data swyddogol yn darparu darlun cynhwysfawr o'r BME yn yr ardal.

Nid yw'r patrymau o dlodi ac anfantais sy'n gyffredin i gymunedau BME mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU yn digwydd yn systematig ymhlith 'grwpiau' yng ngogledd Cymru. Ar wahân i Orllewin y Rhyl a Shotton Uchaf nid oes crynoadau sylweddol o'r BME mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng ngogledd Cymru. Deuddeg y cant yn unig o'r boblogaeth BME yng ngogledd Cymru (799 o unigolion) sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod nifer o weithwyr symudol yn bresennol yr ardal, er enghraifft, Philipiniaid, bobl o Ddwyrain Ewrop, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Bydd gofyn rhoi sylw i anghenion yr ymfudwyr newydd pan ddônt i'r amlwg.

Ffactor allweddol ynglŷn â'r pwysau sydd ar y BME yn yr ardal, a'u disgwyliadau, yw ynysu oddi wrth y rhwydweithiau cymorth. Mae materion fel hiliaeth, unigrwydd a darparu gwybodaeth a chyngor yn galw am ddarparu gwasanaethau

cymorth penodol. Mae'r gofynion statudol yn mynnu y dylid diwallu anghenion cymorth o'r fath hyd yn oed pan fo'r BME yn ychydig o ran nifer. Nid yw niferoedd bach yn gyfystyr ag anghenion bach.

4.3 Yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf

Mae'r nifer o unigolion BME sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn isel yn gyffredinol ar wahân i Orllewin y Rhyl, De Orllewin y Rhyl a Shotton Uchaf. Deuddeg y cant yn unig o'r boblogaeth BME yng ngogledd Cymru sydd yn byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r ymwybyddiaeth o amcanion a phwrpas Cymunedau'n Gyntaf ym mhlith y cyhoedd yn gyffredinol yn isel, ond ym mhlith y BME mae'n arwyddocaol is. Gwneir ymdrechion i ddod i gysylltiad â lleiafrifoedd i geisio esbonio agweddau ar y strategaeth gwrth-dlodi bwysig hon iddynt[2]. Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng canfyddiadau ac anghenion y cymunedau BME sefydledig a'r mewnfudwyr diweddar. Nid yw'r cymdeithasau gwirfoddol BME yn ymwneud llawer â Chymunedau'n Gyntaf. Yn ddiweddar iawn y penodwyd Cydlynwyr ac y ffurfiwyd partneriaethau, ac y mae'r trefniadau hyn yn dal i esblygu. Mae llawer o'r Cydlynwyr eto braidd wedi eu hynysu, ac y mae diffyg cynllunio strategol trwy'r rhanbarth ar faterion cydraddoldeb penodol.

Mae diffyg arwyddocaol yn y gefnogaeth a roddir i'r Cydlynwyr o ran hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth. Mae'r Cydlynwyr yn brin o'r sgiliau angenrheidiol i adnabod a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, ac y mae ffynonellau arbenigedd a chefnogaeth allanol hefyd yn brin yn yr ardal. Annigonol neu absennol yw'r peirianwaith ar gyfer rhannu arferion da.

[2] Cydlynydd BVSNW/ Rhwydwaith Cymorth Cymunedau'n Gyntaf (CFSN).

Ar hyn o bryd un, yn unig, o'r 26 cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf yn ardal gogledd Cymru sydd o gefndir BME. Mae cynrychiolaeth y BME ar fyrddau Cymunedau'n Gyntaf yn isel neu'n absennol. Nid oes data a drefnir yn ganolog sy'n datgelu nifer y BME ar fyrddau a phwyllgorau Cymunedau'n Gyntaf. Un aelod pwyllgor/bwrdd yn unig o'r BME a ganfuwyd yn ystod yr ymchwil hwn.

4.4 Strwythurau cymorth i'r BME yng ngogledd Cymru

Mae nifer o gymdeithasu BME yn gweithredu yng ngogledd Cymru ond maent yn amrywio yn sylweddol o ran eu trefniadaeth fewnol, nifer eu haelodau a'u gweithgareddau. Yn gyffredinol, nid oes gan yr asiantaethau BME alluoedd digonol i gwrdd â'r galw cynyddol sydd arnynt i ddarparu cyngor, ymgynghori a chynnig cymorth. Mae cyrff megis awdurdodau lleol, CABx a'r system gyfiawnder troseddol yn ystyried NWREN a Shekina yn ddarparwyr critigol. Fel a nodwyd eisoes, mae rhai cyrff BME yn sôn eu bod yn destun gormod o ymchwilio ac ymgynghori, a'u bod hefyd yn brin o gyllid cynaliadwy. Mae'r cysylltiadau rhwng yr asiantaethau BME yn parhau'n wan, sy'n achosi'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrechion ac yn rhwystro cynllunio strategol.

Annelwig yw'r cyswllt rhwng y gymuned BME sefydledig a'r cymdeithasau BME; ac isel yw aelodaeth y cymdeithasau o ystyried maint y boblogaeth BME. Dyfeisiodd rhai unigolion BME eu ffyrdd unigryw eu hunain o sefydlu rhwydweithiau er mwyn diwallu eu hanghenion personol. Mae peth o ddylanwad y cymdeithasau'n tarddu o'r tu hwnt i ffiniau Cymru, o sefydliadau ar gyfer y DU gyfan, neu fudiadau rhyngwladol. Mae'r anghenion na ddiwellir yn sylweddol ymhlith mewnfudwyr BME diweddar, ac nid yw'r rhain eto'n cael sylw gan y cyrff lleiafrifol arbenigol nac ychwaith gan y sefydliadau prif-ffrwd.

Ynglŷn â chefnogaeth TGCh i'r BME, ni wnaed unrhyw ymchwil empirig hyd yma yng ngogledd Cymru[3].

Mae nifer o weithwyr datblygu sy'n gysylltiedig â mudiadau gwirfoddol Cymru-gyfan yn weithgar yn yr ardal.

Araf yw'r Asiantaethau prif-ffrwd i ymateb i'w dyletswyddau statudol, ond maent bellach yn fwy ymwybodol o'r gofynion sydd arnynt ac wedi symud gwahanol bellteroedd i gyfeiriad ymgysylltu ag unigolion a chymunedau BME.
Gan mai cyfnod cynnar yw'r presennol, o ran casglu gwybodaeth ar gyfer monitro, ychydig a wnaed hyd yma i werthuso'r data hyn er mwyn arwain polisi. Prin fod unrhyw ddatblygiadau neu fentrau newydd ar droed er mwyn cwrdd ag anghenion y BME. Ychydig o bartneriaeth strategol trawsawdurdod neu ryngasiantaethol sy'n bod i ymateb i'r anghenion yn yr ardal. Dywedir bod y cysylltiadau gydag unigolion a chymunedau BME yn parhau'n wan, ac isel yw cynrychiolaeth y BME ar fyrddau a phwyllgorau oddi mewn i sefydliadau prif-ffrwd. Mae'n amlwg fod angen datblygu sgiliau a hyfforddiant, sefydlu fforymau i rannu arbenigedd a gwybodaeth, a gwneud

[3] Nid yw *Anghydraddoldeb Rhyngrwyd yng Nghymru* (a ddiwedderir yn flynyddol) gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, na *Net gain? Access to and use of the Internet in Wales*, hefyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, yn darparu unrhyw wybodaeth yn ôl grŵp ethnig.

modelau ymgynghori effeithiol yn rhan sefydlog o'r drefn. Ystyrir y modelau ymgysylltu presennol yn aneffeithiol gan yr asiantaethau prif-ffrwd a'r BME. Prin yw'r dystiolaeth yr ymgymerir ag unrhyw waith allgymorth gan yr asiantaethau prif-ffrwd.

4.5 Ymgynghori gyda chymunedau BME

Nodwyd fod gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau prif ffrwd ryw fath o drefniadaeth i ymgyfarwyddo â safbwyntiau'r BME, er bod pob un yn cyfeirio at anawsterau ynglŷn â'u hymdrechion i ymgynghori. Soniwyd am nifer o wahanol rwystrau, rhai ohonynt yn tarddu o'r cymunedau BME eu hunain ac eraill yn ganlyniad gweithred neu anwaith yr asiantaeth. Y rhwystr a nodwyd amlaf oedd amrywiaeth a natur wasgaredig y cymunedau BME o fewn gogledd Cymru. Rhwystrau eraill a ganfuwyd oedd y diffyg gwybodaeth o fewn cymunedau BME ynghylch pwrpas a dull ymgynghori; diffyg hyder, ymddiriedaeth a/neu'r galluoedd i gymryd rhan ym mhlith y BME; diffyg hyblygrwydd yn y trefniadau ar gyfer ymgynghori, a diffyg cynrychiolaeth o'r BME ar gyrff cyhoeddus. Amheuai'r BME a oedd canlyniadau'r ymgynghori yn dylanwadu ar eu bywydau beunyddiol mewn gwirionedd. Cyfeiriwyd yn aml at ludded ymgynghori. Mae'r asiantaethau yn gweithredu gan ddefnyddio modelau ymgysylltu cyfyngedig iawn, ac y mae gofyn iddynt sefydlu methodolegau newydd ac aml-haen.

5. Y ffordd ymlaen

Rhaid gweithredu ar nifer o lefelau i wella'r sefyllfa hon. Mae achos clir o blaid ddatblygu cynghreiriau strategol ar draws y rhanbarth er mwyn gallu ymateb mewn ffordd gydlynol a chytûn i ofynion lleiafrifoedd. Dylid rhannu arferion da. Mae cyfleoedd hefyd i rannu digwyddiadau hyfforddi ac arbenigedd. Mae angen cysoni'r offerynnau monitro. Dylid arbrofi gyda dulliau mwy dyfeisgar ac amrywiol ar gyfer ymgynghori a hyrwyddo cyfranogi.

Rhaid adeiladu galluoedd unigolion a chymunedau BME o'r tu mewn i'r clystyrau o gymdeithasau sydd eisoes yn bodoli, adnabod yr arbenigedd sydd ar gael a datblygu cysylltiadau newydd. Dylid rhoi sylw i'r peryglon o ddyblygu gwaith, disgwyliadau afrealistig a lludded ymgynghori, sy'n nodweddu'r system ar hyn o bryd. Rhaid ymdrechu'n galetach i adeiladu cysylltiadau cyfathrebu cynaliadwy gyda chyfranogwyr allweddol er mwyn gwella ymddiriedaeth a hyder. Gellir cryfhau'r cymhelliad i gymryd rhan trwy sicrhau cynrychiolaeth i'r BME ar gyrff cyhoeddus yn yr ardal, gan gynnwys y byrddau Cymunedau'n Gyntaf.

Mae angen cefnogaeth frys ar unwaith i Gydlynwyr y fenter Cymunedau'n Gyntaf er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau o ran ymgysylltu â'r BME ac adnabod arferion sy'n camwahaniaethu. Rhaid sefydlu hyfforddiant gorfodol yn ddi-oed. Dylid diwygio'r dogfennau arweiniol er mwyn tanlinellu pwysigrwydd materion cydraddoldeb ym mhob rhan o Gymru, hyd yn oed lle mae niferoedd y BME yn isel. Rhaid sefydlu ffynonellau cymorth cydnabyddedig er mwyn sicrhau y gall y Cydlynwyr gyflawni'r disgwyliadau hyn. Rhaid creu isadeiledd a fydd yn caniatáu mynd i'r afael yn strategol â materion cydraddoldeb ym mhob ardal Cymunedau'n Gyntaf, a rhannu a lledaenu arferion da. Dylid datblygu cysylltiadau cryfach gyda'r asiantaethau BME allweddol yn y rhanbarth.

6. Argymhellion allweddol

- Dylid mabwysiadu dull mwy cydlynol ar gyfer ymgymryd ag ymchwil yn yr ardal.

- Dylid datblygu trefniant mwy systematig ar gyfer rhannu allbwn gweithgarwch ymchwil (gan gynnwys setiau data pan fo modd) gydag asiantaethau ac unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil.

- Dylid cynnal ymchwil i anghenion penodol y BME a'r gefnogaeth TGCh yng Nghymru.

- Gall diffyg ffynhonnell ddata ganolog ac unedig achosi anawsterau gyda chymariaethau traws-grŵp. Dylai'r asiantaethau mwyaf, yn enwedig, ymdrechu i safoni eu dulliau o gasglu data a'u systemau monitro.

- Dylai awdurdodau sy'n ymateb i bresenoldeb y BME edrych y tu hwnt i'r ddata rhifol a gesglir o'r ffynonellau ystadegol 'swyddogol'.

- Dylai'r cyrff perthnasol sefydlu amrediad o fecanweithiau ymgynghori hyblyg cydnabyddedig, megis y rhai y cyfeirir atynt ar dudalen 66 yn yr adroddiad hwn.

- Dylid sicrhau cyllid ac adnoddau priodol er mwyn cynnal mecanweithiau ymgynghori effeithiol.

- Mae angen corff rhwydwaith cynaliadwy yn y rhanbarth, gydag adnoddau digonol i fod yn ffynhonnell gwybodaeth ac arbenigedd yn ogystal ag arwyddbost allweddol at asiantaethau cymorth arbenigol, ar gyfer unigolion BME ac ar gyfer asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n chwilio am gymorth. Mae gan nifer o'r cyrff presennol (NWREN, er enghraifft) y potensial i ddarparu'r canolbwynt hwn.

- Dylid datblygu fforwm i weithwyr asiantaethau prif-ffrwd a gweithwyr maes cyffredin BME trwy'r ardal, ar gyfer rhannu gwybodaeth, cefnogaeth, hyfforddiant ac arferion da.

Yn ychwanegol, mae nifer o argymhellion sy'n ymwneud yn benodol â Chymunedau'n Gyntaf:

- **Recriwtio a hyfforddi**

Dylid sicrhau bod Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf, wrth eu recriwtio, yn ymwybodol o faterion cyfleoedd cyfartal. Dylid cynnwys datganiadau a chanllawiau mwy penodol yn y Llawlyfr Arweiniad Cymunedau'n Gyntaf.

Pan fo gwybodaeth a sgiliau yn brin o'r safon, dylid darparu hyfforddiant addas. Dylai hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol fod yn orfodol, ar faterion penodol i'r BME yn ogystal â materion cydraddoldeb eraill.

- **Cymorth i bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf**

Mae'r trefniadau presennol, i ddarparu cymorth o Gaerdydd trwy Gydlynydd y Rhwydwaith Cymorth Cymunedau'n Gyntaf, yn annigonol. Dylai BEST ystyried sut y gallant ddefnyddio gweithwyr datblygu ac asiantaethau yn ardal gogledd Cymru i ddarparu mecanweithiau cymorth ffurfiol i'r partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf.

- **Dulliau ymgysylltu**

Dylid ymdrechu'n galetach i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda holl aelodau'r gymuned, ac annog pob grŵp lleiafrifol i chwarae rhan ymarferol. Dylid canfod dulliau gwahanol o ymgysylltu, a'u defnyddio i sicrhau bod amrediad eang o fuddiannau ac anghenion yn cael eu diwallu.

- **Gweithredu'n gadarnhaol i hyrwyddo'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i bob grŵp cymunedol**

Dylid gwneud mwy i ofalu fod manteision rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn hysbys i'r gymuned yn gyffredinol. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio'r cyfryngau lleol, canolfannau cymunedol, a thrwy ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd i fudiadau gwirfoddol yn yr ardal.

Dylid gwneud rhagor i sicrhau gwell cynrychiolaeth i bobl o gefndir BME ar y byrddau Cymunedau'n Gyntaf ac, os oes modd, ym mhlith y Cydlynwyr.

- **Monitro a gwerthuso unedig**

Dylid sefydlu strwythurau a mecanweithiau i alluogi'r holl Gydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf i fonitro a gwerthuso eu lwyddiant o ran ymgysylltu â chymunedau BME.

- **Amcanion eglur clir sy'n berthnasol i anghenion penodol y rhanbarth**

Mae'r nifer fach o'r BME sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn codi materion sy'n nodweddiadol o'r rhanbarth ac yn galw am ddull gweithredu gwahanol i'r un a ddefnyddir yn Ne Cymru. Dylid annog Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf gael eu hannog i ddatblygu dull strategol ar gyfer ymgysylltu â'r BME yn y rhanbarth, sy'n caniatáu rhannu sgiliau a gwybodaeth, a chadarnhau'r arferion gorau.